OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2013 Rhif 639 (Cy.72)

# Y DRETH GYNGOR, CYMRU

## Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Darpariaethau Ychwanegol ar gyfer Diystyriadau Disgownt) (Diwygio) (Cymru) 2013

*Gwnaed - - - -* *18 Mawrth 2013*
*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* *18 Mawrth 2013*
*Yn dod i rym - -* *8 Ebrill 2013*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan baragraff 9 o Atodlen 1 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992(**1**) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**).

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Darpariaethau Ychwanegol ar gyfer Diystyriadau Disgownt) (Diwygio) (Cymru) 2013 ac maent yn dod i rym ar 8 Ebrill 2013.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

**Diwygio Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Darpariaethau Ychwanegol ar gyfer Diystyriadau Disgownt) 1992**

**2.** Mae paragraff 3(a) o'r Atodlen i Reoliadau'r Dreth Gyngor (Darpariaethau Ychwanegol ar gyfer Diystyriadau Disgownt) 1992(**3**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn—

(a) ym mharagraff (i) yn lle "a higher rate" rhodder "an";

(b) ym mharagraff (ii) ar ôl "highest" mewnosoder "or middle", ac ar ôl "section 72(4)(a)" mewnosoder "or section 72(4)(b)";

(c) ar ddiwedd paragraff (iii) hepgorer "or"; a

(d) ar ôl paragraff (iv) mewnosoder—

"or

(**1**) 1992 p.14.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), erthygl 2 ac Atodlen 1. Trosglwyddwyd y swyddogaethau hynny wedi hynny i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

(**3**) O.S. 1992/552. Diwygiwyd paragraff 3(a) o'r Atodlen gan O.S. 1994/540 ac O.S. 1996/637.